CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 5 Tachwedd 2018 am 7.30yh
yn Festri Capel Penyparc

Presennol:

Cyng. Dilwyn Jenkins *(Cadeirydd)*
Cyng. Lyn Jones
Cyng. Lloyd Jenkins
Cyng. Clive Davies (*Aelod lleol o'r Cyngor Sir*)
Cyng. Llinos Price
Cyng. Des Davies
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod mis Tachwedd. Llongyfarchodd y Cyng. Auriol Williams a'i theulu ar redeg ras hanner marathon yng Nghaerdydd a chodi arian i'r elusen Parkinsons er cof am Mrs Mair Elias (mam a mamgu) bu farw llynedd. Gwnaeth y Cadeirydd hefyd ddymuno'n dda i'r Cyng. Matthew Morgan a'i deulu sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyngh. Auriol Williams, Peter Williams, Matthew Morgan, Eurig Lloyd.

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
   Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Jones bod cofnodion mis Hydref yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Dim

5. **Materion yn codi:**
   (a) **Cysgodfan Bysiau Penyparc:** Bydd y cwmni Bus Shelters Ltd yn cyflawni'r gwaith cyn diwedd y flwyddyn.
   (b) **Potiau blodau tu allan i garej Robert Davies:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gydag Asiant Trafnidiaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru am eu sylwadau ynglŷn â'r mater yma.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
   I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Cyngor ar Bopeth	Talwyd ym mis Ebrill	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	Talwyd ym mis Ebrill	£150.00
Gofal Mewn Galar	Talwyd ym mis Ebrill	£50.00
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru	Siec 101720	£150.00
Capel y Bedyddwyr Penyparc	Siec 101721	£1,000.00
Clwb Pêl-droed Penyparc	I'w drafod ym mis Ebrill 2019	
Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Ebrill 2019	

7. **Cynllunio:** Dim

8. **Materion Ariannol**
   Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Hydref 2018)	101722	£308.77
Costau'r Clerc (Hydref 2018)	101723	£50.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Hydref 2018)	101724	£77.20
Dŵr Cymru: Dŵr i'r ystafelloedd newid, Ystafell Berkley, Penyparc	101725	£73.48
Mr John Morris: Torri'r borfa – Cae Gwyrdd, Penyparc	101726	£670.80
Mr John Morris: Torri'r borfa: Chwe mis 2018	101726	£460.00
Mr John Morris: Trasio llwybrau	101726	£772.80

   Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu.

   Materion ariannol eraill: Archwiliwyd dogfennau ariannol y chwe mis (Ebrill-Medi 2018) gan y Cyng. Ann Stokoe ar 15 Hydref 2018 a'u cymeradwywyd.

   Adolygiad cyflog glanhawyr yr ystafelloedd newid yn Ystafell Berkley. (Telir £225 bob chwarter ar hyn o bryd). Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins bod y swm o £250 y chwarter yn cael ei dalu o fis Ebrill 2019.
   Derbyniadau: Derbyniwyd rhan olaf y praesept (£6,666.66) yn ystod y mis.

9. Gohebiaeth:

40	Cyngor Sir Ceredigion (Cyllid a Chaffael)	Mae angen cadarnhad bod y gwaith ar y gysgodfan bysiau yn mynd yn ei flaen ac i orffen cyn 1 Mawrth 2019.	Cytunwyd i'r Clerc gadarnhau y bydd y gwaith ar ben erbyn 1 Mawrth 2019.
41	Cyngor Sir Ceredigion (Cyllid a Chaffael)	Manylion taliad y rhandal olaf o'r praesept (£6,666.66)	Nodwyd
42	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Lansiad Swyddogol GIG111 ar draws Rhanbarth Hywel Dda, 31/10/18.	Posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfyrddau.
43	Cyngor Sir Ceredigion (Cyswllt Cwsmeriaid)	Diwrnod Hawliau Gofalwyr: Digwyddiad am ddim ar gyfer gofalwyr, 30 Tachwedd yn Yr Hen Goleg, Aberystwyth, 10:30yb-3:30yp	Posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfyrddau.
44	Bobath: Canolfan Therapi Plant Cymru	Llythyr o ddiolch am grant y Cyngor.	Nodwyd
45	Mr Robert Davies	Ymateb i gwyn y Cyngor am leoliad y potiau blodau tu allan i'r garej.	Oherwydd bod yr ardal yma tan ofal Asiant Trafnidiaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu am eu sylwadau.
46	Clwb Pêl-droed Penparc	Cais am gymorth ariannol. Derbyniwyd ffurflen gais a mantolen ariannol y Clwb.	I ddilyn canllawiau'r Cyngor i gyfrannu at elusennau a sefydliadau ddwy waith y flwyddyn yn unig, caiff y cais ei ystyried yng nghyfarfod mis Ebrill. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Clwb.
47	Ysgol Gymunedol Penyparc	Cais am gymorth ariannol.	Anfonwyd ffurflen gais i'r ysgol ar 13 Hydref.
48	Cyngor Sir Ceredigion (Tom Delph-Janiurek)	Ymateb oddi wrth y Cyngor Sir yn cynghori'r Cyngor i anfon y cais am ostwng cyfyngder cyflymdra Tremain ymlaen at Lywodraeth Cymru.	Mae'r cais wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru.
49	Mrs Hildreth Owen	Llythyr o ymddeoliad y Clerc o 31 Mawrth 2019.	Nodwyd
50	Hen Ysgol y Ferwig	Cais am gymorth ariannol.	I ddilyn canllawiau'r Cyngor i gyfrannu at elusennau a sefydliadau ddwy waith y flwyddyn yn unig, caiff y cais ei ystyried yng nghyfarfod mis Ebrill. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r pwyllgor.
51	Ms Llinos Price (Ysgrifennydd Capel y Bedyddwyr, Penyparc)	Llythyr o ddiolch am y cyfraniad oddi wrth Gyngor y Ferwig.	Nodwyd

10. Materion Eraill: Dim

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

(a) **Hen Ysgol y Ferwig:** Llongyfarchion i bwyllgor Hen Ysgol y Ferwig ar y newyddion bod eu hymdrechion i bwrcasu'r adeilad ar y gorwel.

(b) **Brynteg, Ferwig:** Mae'r Cyng. Clive Davies wedi anfon e-bost arall at Mr Huw Davies o'r Cyngor Sir, yn gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r sefyllfa.

(c) **Uchder y coed yn Patch:** Yn dilyn cwyn ynglŷn â'r broblem, mae'r Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins wedi cynnig delio gyda'r mater.

(d) **Ffordd lawr i draeth y Mwnt:** Cynhaliwyd cyfarfod safle ym Mwnt gyda pherchnogion y tir, ac mae cytundeb ar waith a mesuriadau o'r newidiadau sydd angen. Gobeithir y bydd y gwaith yma wedi ei orffen cyn diwedd Ionawr 2019.

(e) **Band-eang yn Felinwynt:** Cynhelir cyfarfod agored rhwng trigolion Felinwynt ac Elin Jones AC ar 9 Tachwedd i drafod y diweddariad am osod system band-eang cyflym yn yr ardal.

(f) **Cylch Meithrin Penparc:** Mae'r Cylch wedi ennill gwobr gyda Mudiad Meithrin Cymru yng nghategori "Cynhwysiant". Mae Ms Mary Short, wedi ennill y drydedd gwobr yn y categori "Cynorthwy-ydd". Cytunwyd bod llythyr yn cael ei anfon at swyddogion y Cylch yn eu llongyfarch ar eu llwyddiant.

(g) **Cymorth Cartrefi Cynnes ar gyfer henoed bregus:** Gyda misoedd y gaeaf yn agosáu a biliau gwres yn cynyddu, mae Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor ar Bopeth, Ceredigion wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid oddi wrth Gronfa Cartrefi Sir Ceredigion o Gynhesrwydd Fforddiadwy. Cynhelir lansiad ddydd Llun, 12 Tachwedd yn Neuadd y Pentref, Llwyncelyn, o 12.30yp ymlaen. Bydd hwn yn gyfle i drigolion sydd efallai yn ei gweld yn anodd i wresogi eu cartrefi, i gael gwybod pa gymorth sydd ar gael.

(h) **Cynlluniau Lle:** Gofynnwyd i gynghorwyr gynnig syniadau i wella cyfleusterau'r ardal i'w gosod ger bron y gweithgor.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 3 Rhagfyr yn Hen Ysgol y Ferwig

Cyfarfodydd y Cyngor am 2019:

7 Ionawr (YB) 4 Chwefror (F) 4 Mawrth (YB) 1 Ebrill (F) 13 Mai (YB) 3 Mehefin (F)
1 Gorffennaf (YB) 2 Medi (F) 7 Hydref (YB) 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 5 November, 2018 at 7.30p at Penyparc Chapel Vestry.

Present

Cllr Dilwyn Jenkins *(Chairperson)*
Cllr Lyn Jones
Cllr Lloyd Jenkins
Cllr Clive Davies (*Local member of the County Council)*
Cllr Llinos Price
Cllr Des Davies
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

1. **Chairperson's welcome and Personal Matters.** The Chairperson, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the November meeting. He congratulated Cllr Auriol Williams and her family who took part in Cardiff's Half Marathon raising money in memory of Mrs Mair Elias in aid of the Parkinsons charity. Cllr Dilwyn Jenkins also wished Cllr Matthew Morgan and his family all the best in their new home.

2. **Apologies for absence:** Cllrs Auriol Williams, Peter Williams, Matthew Morgan, Eurig Lloyd.

3. **Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Lyn Jones that the minutes of the October meeting be recorded as correct.

4. **Declaration of personal interests:** None

5. **Matters arising:**
   (a) **Penyparc Bus Shelter:** Bus Shelters Ltd have informed the Clerk that this will be in place before the end of the year.
   (b) **Flower Pots outside Robert Davies' Garage:** The Clerk was requested to contact the North and Mid Wales Trunk Road Agency requesting their observations regarding this issue.

6. **Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Citizens' Advice Bureau	Paid in April 2018	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	Paid in April 2018	£150.00
Cruse Bereavement Care	Paid in April 2018	£50.00
Bobath Children's Therapy Centre	Cheque 101720	£150.00
Penyparc Chapel	Cheque 101721	£1,000.00
Penyparc Football Club	To be discussed in April 2019	
Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed in April 2019	

7. **Planning:** None

8. **Financial Matters.**
Bills paid:

Clerk's wages (October 2018)	101722	£308.77
Clerk's Expenses (October 2018)	101723	£50.00
HM Revenue & Customs: Clerk's Income Tax (October 2018)	101724	£77.20
Welsh Water (Water for Ystafell Berkley changing rooms)	101725	£73.48
Mr John Morris (Grasscutting at Caegwyrdd, Penyparc)	101726	£670.80
Mr John Morris (General grasscutting for six months)	101726	£460.00
Mr John Morris (Path trashing)	101726	£772.80

It was proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Des Davies that the above bills be paid.

Other financial matters: The financial documents for the six months (April-September 2018) were scrutinised and approved by Cllr Ann Stokoe on 15 October 2018.

Revision of the payment for cleaning the Ystafell Berkley changing rooms (present payment £225). It was agreed to increase the payment to £250 per quarter from 1 April 2019.

Receipts: The final precept payment for the present financial year (£666.66) was paid during the month.

9. Correspondence:

40	Ceredigion County Council (Finance and Procurement)	The County Council requires confirmation that the work on the new bus shelter will be completed before 1 March 2019	The Clerk will advise the County Council that the work will be completed before the specified date.
41	Ceredigion County Council (Finance and Procurement)	Remittance Advice that the final payment of the Praesept has been paid (£6,666.66)	Noted
42	Hywel Dda University Health Board	Official Launch of NHS111 across the Hywel Dda region, 31/10/18.	Posters have been placed in the notice boards
43	Ceredigion County Council (Customer contact)	Carers Rights Day: A free event for carers on 30 November at The Old College, Aberystwyth, 10:30am-3:30pm	Posters have been placed in the noticeboards
44	Bobath: Children's Therapy Centre	Letter of thanks for the financial aid	Noted
45	Mr Robert Davies	Response to the Council's complaint regarding the flower pots outside the garage.	The Clerk was asked to contact the North & Mid Wales Trunk Road Agency regarding this matter.
46	Clwb Pêl-droed Penparc	Cais am gymorth ariannol. Derbyniwyd ffurflen gais a mantolen ariannol y Clwb.	In order that the council's guidelines are followed, where these requests are discussed twice a year only, this request will be discussed at the April meeting. The Clerk was asked to notify the committee.
47	Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	Request for financial aid.	Grant Application Form forwarded to the school on 13 October.
48	Ceredigion County Council (Tom Delph-Janiurek)	Request from Ceredigion County Council suggesting that the Community Council forward a request to the Welsh Government regarding the speed limit from The Vicarage, Tremain to the roundabout at Blaenanerch.	The Clerk was asked to forward the request to the Welsh Government.
49	Mrs Hildreth Owen	Letter of her pending resignation on 31 March 2019 received from the Clerk.	Noted.
50	Hen Ysgol y Ferwig	Request for financial aid.	In order that the council's guidelines are followed, where these requests are discussed twice a year only, this request will be discussed at the April meeting. The Clerk was asked to notify the committee.
51	Llinos Price (Secretary Penyparc Chapel)	Letter of thanks for financial aid for Penyparc Chapel.	Noted.

10. Other Matters: None

11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

(a) **Ferwig Old School:** The committee of the Old School in Ferwig were congratulated on the good news that their efforts to purchase the building is coming to fruition.

(b) **Brynteg, Ferwig:** Cllr Clive Davies has forwarded another letter to the County Council Enforcement Officer, Mr Huw Davies, requesting an update to the issue.

(c) **Pruning of the upper branches of the trees at Patch:** Following a short discussion, Cllr Dilwyn Jenkins agreed to deal with the matter.

(d) **The lane down to Mwnt:** A meeting was held with the landowners, and negotiations are continuing to agree on a solution; this is hoped to be finalised by the end of January 2019.

(e) **Super-fast Broadband at Felinwynt:** An open meeting will be held on 9 November between Elin Jones AM and local residents to discuss the latest development to speed up the broadband service in the area.

(f) **Cylch Meithrin Penparc:** The school has won an award with the National Meithrin movement in the "Inclusion" category. Ms Mary Short has been awarded the third prize in the "Assistant" category. It was agreed to forward a letter of congratulations from the Council to the school.

(g) **Launch of Warm Homes Assistance available for vulnerable households.** Funding has been secured that will help vulnerable households in Ceredigion prepare for winter. With the winter months approaching and the fuel bills rising, Ceredigion County Council and Citizens Advice Ceredigion successfully obtained funding under the Warm Homes Fund from Affordable Warmth. A launch will be held on Monday,
12 November at the Village Hall in Llwyncelyn, from 12:30pm onwards. This will be an opportunity for residents, who may be struggling to afford to heat their homes, to find out what support is available through this scheme.

(h) **Place Plans:** Councillors were requested to introduce ideas for discussion with the Place Plans working party.

---

12. Date of next meeting: 3 December 2018 at Hen Ysgol y Ferwig

Council Meetings for 2019:

7 January (YB) 4 February (F) 4 March (YB) 1 April (F) 13 May (YB) 3 June (F)
1 July (YB) 2 September (F) 7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting